Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: monitro gan Estyn

**Ysgol Morgan Llwyd**
**Ffordd Cefn**
**Wrecsam**
**LL13 9NG**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Delyth Lloyd Gray | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Jones | Arolygydd Tîm |
| Elfyn Jones | Cynrychiolydd yr awdurdod lleol |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Morgan Llwyd wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ionawr 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

O dan ddarpariaethau Adran 39 (9) Deddf Addysg 2005, rhaid i bob adroddiad blynyddol i rieni sy'n cael ei baratoi gan y corff llywodraethol o dan Adran 30 Deddf Addysg 2002 gynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r ysgol ymhen tua 12 mis i arolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 3 yn enwedig yn y lefelau uwch a gwella medrau ysgrifennu'r bechgyn

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod priodol o strategaethau er mwyn gwella perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Ers yr ymweliad monitro ym Mai 2016, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth er mwyn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â chryfhau eu medrau pynciol. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion cyfnod allweddol 3 ysgrifennu'n estynedig at amrywiol bwrpasau ar draws llawer o bynciau. Yn ogystal, mae llawer o adrannau yn gosod tasgau heriol ac ymestynnol sy'n ennyn diddordeb disgyblion a chryfhau eu cymhelliant i ddysgu. Mae'r strategaethau buddiol hyn wedi cyfrannu at welliannau yn y dangosydd pwnc craidd ac yn y pynciau unigol yn 2016. Mae cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch mewn llawer o bynciau. Yn ogystal, mae safonau ysgrifennu bechgyn wedi codi ers adeg yr arolygiad craidd.

Serch y gwelliannau ym mherffromiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 ers adeg yr arolygiad craidd yn 2013 yn peri pryder.

Mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 am y tair blynedd diwethaf yn llawer is na pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pump TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn is na'r deilliannau wedi'u modelu am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion ar sail cymhwysedd i brydau ysgol am ddim ers 2014. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn

arwyddocaol is na'r deilliannau wedi'u modelu ers 2014 ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 TGAU A* i A yn is na pherfformiad ysgolion tebyg eraill ers tair blynedd ac yn sylweddol is na'r perfformiad ar adeg yr arolygiad craidd. Nid yw perfformiad mewn mathemateg wedi gwella ers adeg yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, mae tuedd o welliant dros amser ym mherfformiad Saesneg a gwyddoniaeth.

Ers Medi, 2016, mewn ymateb i danberfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol wedi rhoi ystod o strategaethau addas ar waith. Mae'r ysgol wedi mireinio a chryfhau ei dull o olrhain cynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae gallu arweinwyr i adnabod disgyblion sy'n tangyflawni ac i roi trefniadau perthnasol ar waith yn fuan wedi gwella. Fodd bynnag, gan mai strategaethau ddiweddar yw'r rhain, nid yw'n bosibl mesur eu heffaith ar safonau disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 2: Rhannu arfer dda ar draws yr ysgol i hybu ansawdd a chywirdeb marcio, a dilyniant y disgyblion i sylwadau'r athrawon**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers ymweliad monitro Mai 2016, mae'r ysgol wedi gweithredu'n gadarn i wella ansawdd a chywirdeb y marcio ac i sicrhau dilyniant gan ddisgyblion i sylwadau athrawon. Mae'r polisi 'Asesu, Marcio ac Adborth ar Waith' yn cynnig arweiniad clir ac mae'r uwch dîm arwain yn effeithiol wrth fonitro sut mae athrawon yn cymhwyso'r polisi wrth farcio ac asesu. Erbyn hyn, mae'r mwyafrif o adrannau yn ei ddefnyddio yn gyson.

Mae'r ysgol wedi darparu ystod eang o sesiynau hyfforddiant gwerthfawr sydd wedi arwain at gysoni dealltwriaeth y staff o'r arferion asesu mwyaf effeithiol. Mae gweithdrefnau atebolrwydd a sicrhau ansawdd cadarn yn weithredol ac, o ganlyniad, mae arweinwyr ar bob lefel yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth fonitro gweithrediad y polisi. Targedir ymyrraeth a chefnogaeth bwrpasol i adrannau pan welir anghysondeb gweithredu.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cyflwyno adborth buddiol i ddysgwyr wrth iddynt weithio ar dasgau estynedig,er enghraifft drwy egluro a rhoi ymarferion ychwanegol i ddisgyblion gywiro camsyniadau. O ganlyniad, mae ansawdd gwaith y disgyblion yn gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, nid yw'r adborth yn ddigon miniog i ganiatáu i ddysgwyr mwy galluog gyrraedd y cam nesaf yn eu dysgu.

Yn y mwyafrif o bynciau, mae athrawon yn cyflwyno sylwadau buddiol a gwerthfawr ar gywirdeb sillafu, gramadeg a chystrawen.

Ers Medi, 2016, mae'r athrawon a disgyblion yn defnyddio taflenni 'Asesu Tasg' pwrpasol ac mae hyn wedi arwain at well cysondeb yn y gweithredu ar draws yr ysgol. Mae'r mwyafrif o adrannau yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt i gyflwyno adborth o ansawdd da ar ddiwedd tasg. Mae ansawdd y cyngor a'r targedau sy'n cael eu rhoi i ddysgwyr i wella'u gwaith yn fwy penodol a chlir na'r hyn a welwyd yn ystod yr ymweliad monitro diwethaf. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymateb yn briodol i sylwadau'r athrawon ac maent yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'w gwaith. Fodd bynnag, mae ymateb ychydig o ddisgyblion i sylwadau'r athro yn parhau i fod yn fyr ac arwynebol.

Mae tystiolaeth o ddisgyblion yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol i hunanasesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion mewn tua hanner y pynciau.

Mae gweithredu'r ysgol wedi arwain at welliannau mewn safonau cyflawniad yn nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur effaith yr arferion hyn ar safonau yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 3: Lleihau lefel y gwaharddiadau dros dro**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol, gyda chymorth ei disgyblion a'r staff, wedi datblygu polisi ymddygiad a gwobrwyo effeithiol. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant pwrpasol i'r holl staff ar ddulliau rheoli ymddygiad a strategaethau cadarnhaol i ymgysylltu â disgyblion. Mae hyn wedi arwain at gysondeb yn y ffordd y mae staff yn ymateb i achosion o gamymddwyn yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Erbyn hyn, mae gan athrawon well dealltwriaeth o bwysigrwydd creu a chynnal ethos cadarnhaol a chynhyrchiol yn eu dosbarthiadau. Yn ogystal, mae disgyblion yn deall y disgwyliadau uchel sydd ohonynt i ymddwyn yn gyfrifol ac yn barchus.

Mae trefniadau cadarn yn eu lle i ymateb i'r achosion prin o gamymddwyn difrifol. Mae disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiadol dwys yn derbyn cefnogaeth arbenigol werthfawr drwy'r adnodd 'Cynnal'. Mae'r ddarpariaeth hon yn golygu bod unrhyw ddisgybl sydd mewn perygl o gael ei wahardd yn derbyn cymorth pwrpasol ac amserol.

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol gynhwysol iawn. Mae'r pennaeth mewn gofal ac arweinwyr eraill wedi ymrwymo i sicrhau bod disgyblion ag anawsterau ymddygiadol ac emosiynol yn cael cefnogaeth fuddiol fel y gallant barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

O gymharu ag adeg yr arolygiad craidd, mae nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd am dymor penodol wedi gostwng yn arwyddocaol.

**Argymhelliad 4: Gweithredu ar argymhellion hunanasesu'r ysgol a rhannu'r arfer orau ymhlith yr holl adrannau wrth hyrwyddo rhagoriaeth**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn dilyn arolygiad craidd Ysgol Morgan Llwyd yn Ionawr 2014, arfarnwyd bod angen monitro gan yr awdurdod addysg lleol ar yr ysgol. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, newidiwyd lefel y gweithgarwch dilynol i fonitro gan Estyn gan nad oedd yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd tuag at gyflawni'r argymhellion. Yn dilyn ymweliad monitro Mai 2016, rhoddwyd mwy o amser i arweinwyr i weithredu.

Yn Medi 2016, yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd mewn arweinyddiaeth, uwchraddwyd y dirprwy bennaeth presennol i swydd pennaeth mewn gofal dros dro. Mewn amser byr, mae hi wedi sicrhau arweinyddiaeth briodol ac wedi rhoi gweithdrefnau addas ar waith. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn ôl asesiadau athrawon yng nghyfnod allwedol 3. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol dros

amser mewn llawer o ddangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4 yn peri pryder. Ers Mai 2016 mae'r pennaeth dros dro a'r uwch dîm rheoli wedi gweithredu'n gyflym ac yn gadarn i gryfhau prosesau hunanarfarnu, cynllunio ar gyfer gwella a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae gwelliannau priodol i'w gweld o ran ansawdd yr asesu a safon y gwaith yn llyfrau'r disgyblion, y gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau ac yn nealltwriaeth arweinwyr o'u rolau.

Mae'r uwch dîm rheoli ac arweinwyr ar bob lefel yn onest ac yn arfarnol wrth werthuso'u gwaith a pherfformiad yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen drylwyr sydd yn adnabod y prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn gywir. Mae'r adroddiad yn arfarnol ar y cyfan, er bod tuedd i fod yn or-ddisgrifiadol ar brydiau. Mae wedi ei seilio'n briodol ar ganfyddiadau ystod o weithgareddau buddiol sydd yn cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae'r adroddiadau unigol a chrynodol ar wersi a llyfrau yn rhoi darlun defnyddiol o waith yr ysgol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o arfarniadau ar wersi, nid yw'r meysydd i'w gwella yn gwbl glir ac, yn gyffredinol, nid oes digon o sylw i gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae arweinwyr wedi cydweithio'n nerthol gydag asiantaeth allanol er mwyn cryfhau eu medrau arweinyddol a'u cyfundrefnau sicrhau atebolrwydd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth fwy trylwyr o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Bellach, mae ymateb arweinwyr i ganfyddiadau gweithgareddau monitro cynnydd wedi'i finiogi. Erbyn hyn, mae pwyslais amlwg mewn cyfarfodydd cyswllt adrannol ar weithredu'n syth i adnabod a chefnogi disgyblion sydd yn tangyflawni ac mae dilyniant amlwg o un cyfarfod i'r llall. Mae'r ysgol hefyd wedi dechrau olrhain cynnydd grwpiau targed traws ysgol yn fwy trylwyr.

Serch newidiadau diweddar, nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi cael digon o effaith ar gynnal neu wella deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd ers yr arolygiad craidd.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.